# Adroddiad Blynyddol i Randdeiliaid

2024



WALES&WEST UTILITIES

# Amdanom ni

Mae mwy na 35,000 o gilometrau o bibellau nwy yn eiddo i ni ac yn cael eu cynnal gennym ac rydym yn cyflenwi nwy i oddeutu 2.5 miliwn o aelwydydd a busnesau, gan wasanaethu poblogaeth o tua 7.5 miliwn o bobl. Dydyn ni ddim yn gwerthu nwy; yn hytrach, rydym yn defnyddio ein rhwydwaith eang o bibellau i gludo nwy ar hyd a lled Cymru a de-orllewin Lloegr.

Mae ein cwsmeriaid yn ymddiried ynom i ymateb i argyfyngau nwy a chadw eu cymunedau'n ddiogel, cysylltu cartrefi a busnesau newydd, ac uwchraddio'r rhwydwaith nwy fel ei fod yn parhau'n ddiogel heddiw ac yn barod i gludo ynni gwyrdd yn y dyfodol.

Rydym yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid a chymunedau i ddatblygu datrysiadau ynni cynaliadwy, arloesol a fforddiadwy. Rhan o'n rôl ydy gwneud cyfraniad cadarnhaol at ansawdd bywyd a llesiant ein cwsmeriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Dyna pam rydym yn gweithio pob awr ac yn buddsoddi yn ein rhwydwaith nwy, er mwyn parhau i gludo nwy yn llwyddiannus i gartrefi a busnesau, gan gynnig y gwasanaeth gorau un i'n cwsmeriaid nawr ac am genedlaethau i ddod.



# Cynnwys


- Amdanom ni 02
- Sut i ddefnyddio codau QR 02
- Cyflwyniad 04
- Ein dyhead a'n blaenoriaethau 05
- Mynnu diogelwch bob amser 06
- Gwneud popeth y gallwn i ddarparu ynni cynaliadwy 08
- Cynllunio ein dyfodol 10
- Arwain gwasanaeth rhagorol 12
- Darparu gwerth am arian 14
- Cysylltwch â ni 16






# Cyflwyniad

Croeso i'n crynodeb blynyddol o uchafbwyntiau 2024 a'r manteision sydd wedi dod i'n defnyddwyr a'n rhanddeiliaid yn eu sgil. Bwriad yr adroddiad hwn ydy cadarnhau ein dyhead i arwain y diwydiant o ran arloesi, cynhwysiant, a buddiannau i'r gymuned.

Roedd 2024 yn flwyddyn arwyddocaol i ni. Buom yn datblygu a chwblhau ein Cynllun Busnes 2026-2031 a'i gyflwyno i Ofgem, gyda manylion yr ymrwymiadau uchelgeisiol yr ydym yn cynnig eu darparu i'n defnyddwyr a'n rhanddeiliaid. Bydd Ofgem yn gwneud dyfarniad terfynol ynglŷn â'n Cynllun Busnes arfaethedig ym mis Rhagfyr 2025, yn barod i'w weithredu o fis Ebrill 2026.

Mae ein cynlluniau a'n gwaith buddsoddi yn cael eu ffurfio a'u diwygio o ganlyniad i wrando ar sylwadau a chanfyddiadau defnyddwyr a rhanddeiliaid, a gweithredu ar eu sail. Diolch yn fawr i bawb a fu'n rhan o'n gweithgareddau ymgysylltu y llynedd gan helpu i ddylanwadu ar ffurf ein Cynllun Busnes. Rydym yn gobeithio y byddwch yn parhau i'n cefnogi wrth i ni fireinio ein gwasanaethau er mwyn i ni allu gweithredu er lles y cymunedau a wasanaethir gennym.

Yn yr adroddiad hwn, byddwch yn darllen am ein cefnogaeth i ddatgarboneiddio diwydiant drwy gymryd rhan ym mhrosiect HyLine Cymru sy'n seiliedig ar hydrogen. Byddwch yn darllen hefyd am fenter newydd sy'n cael ei hariannu gan Lwfans Bregusrwydd a Charbon Monocsid Ofgem. Nod y prosiect ydy helpu miloedd o ddefnyddwyr hŷn i gadw'n ddiogel a chynnes yn eu cartrefi. Rydym hefyd yn rhoi sylw i'n camau tuag at ddyfodol cynaliadwy a chynhwysol a'r gydnabyddiaeth a gawsom am ymdrechion Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant – er ein bod yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud yn y maes hwn.

Mae ein hymrwymiad yn parhau i'n gweithrediadau craidd, sef sicrhau cyflenwad nwy diogel a dibynadwy i bawb sy'n dibynnu arnom yn ddyddiol. Drwy ganolbwyntio ar hynny, enillon ni ein 11eg Gwobr Aur am Ddiogelwch gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau yn 2024 – dim ond un cwmni cyfleustodau arall yn y Deyrnas Unedig sydd wedi cyflawni'r gamp hon.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen ein hadroddiad. Os oes unrhyw beth yr hoffech ei drafod, byddai ein tîm ymgysylltu wrth eu bodd yn clywed gennych. Mae eu manylion cysylltu ar ddiwedd yr adroddiad.

**Graham Edwards OBE**
**Prif Weithredwr**



## Ein dyhead

Gellir ymddiried ynom i fod yn arbenigwyr ar wasanaethu cwsmeriaid a chymunedau gyda gwasanaethau ynni diogel, dibynadwy a fforddiadwy heddiw, ac i fuddsoddi'n ddoeth er mwyn creu dyfodol cynaliadwy, gwyrddach.

## Ein blaenoriaethau

### Gwneud popeth y gallwn i ddarparu ynni cynaliadwy

Rydym yn gweithio tuag at gyflawni targedau sero net a darparu ynni dibynadwy, gwyrddach ar gyfer gwres, pŵer a chludiant.

### Arwain gwasanaeth rhagorol

Rydym yn ymdrechu i fynd y tu hwnt i ddisgwyliadau cwsmeriaid drwy gynnig gwasanaethau teg, cynhwysol ac o ansawdd, gan ofalu am bobl anghenus.

### Mynnu diogelwch bob amser

Fyddwn ni byth yn cyfaddawdu ynglŷn â diogelwch, llesiant a iechyd ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid, ac rydym yn gwella safonau'n barhaus.

### Cynllunio ein dyfodol

Rydym yn datblygu tîm galluog, cydnerth, amrywiol i weithio gyda'n rhanddeiliaid a helpu'n cymunedau a'n cymdeithas i ffynnu.

### Darparu gwerth am arian

Rydym wastad yn gwario a buddsoddi arian yn ddoeth, gan weithio mewn ffyrdd deallus i gynnig gwasanaethau fforddiadwy sy'n rhoi gwerth am arian.

# Mynnu diogelwch bob amser

**Mae ein rhanddeiliaid yn parhau i ddweud wrthym bod diogelwch yn brif flaenoriaeth ac rydym wedi ymrwymo i ddiogelu ein defnyddwyr, cymunedau a chydweithwyr. Rydym yn cynnal safonau diogelwch uchel yn ein gweithrediadau dyddiol, yn diogelu ein safleoedd, ein data a'n rhwydwaith, ac yn mynd ati'n weithredol i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â pheryglon carbon monocsid.**






Cawsom ddathlu ein 11eg Gwobr Aur RoSPA

## Safonau uchel sy'n ennill gwobrau

Rydym yn hynod falch o'n record ar ddiogelwch. Mae ein cyflawniadau yn y maes hwn, sy'n flaenoriaeth uchel i randdeiliaid, wedi cael eu cydnabod yn gyson gan asiantaethau safonau diogelwch.

Yn 2024, dyfarnodd y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) wobr aur i ni am yr unfed tro ar ddeg yn olynol am ein perfformiad arweiniol o safbwynt iechyd a diogelwch. Cystadleuaeth Gwobrau Iechyd a Diogelwch RoSPA ydy'r rhaglen wobrau iechyd a diogelwch galwedigaethol fwyaf yn y Deyrnas Unedig ac mae'n un o'r cynlluniau mwyaf yn y byd o ran bri a chydnabyddiaeth. Mae'r wobr aur yn cydnabod ymrwymiad pawb yn y busnes ac yn adlewyrchu eu hymroddiad i gyflawni'r safonau uchel yr ydym yn eu gosod i'n hunain yn barhaus.

## Cydnabyddiaeth drwy wobrau'r diwydiant nwy

Cafodd ein hymroddiad i ddiogelwch ac arloesi ei gydnabod ymhellach gan Sefydliad y Peirianwyr a Rheolwyr Nwy (IGEM) yn eu gwobrau blynyddol i'r Diwydiant Nwy yn Llundain, ac roeddem wrth ein boddau yn derbyn Gwobr Diogelwch IGEM yno am ein sylw parhaus i gynnal llesiant ein tîm a'r cymunedau a wasanaethir gennym.

Eleni, llwyddon ni hefyd i gipio Gwobr Proses Adrodd am Ddifrod Orau Linesearch before U dig (LSBUD) am ein gostyngiad parhaus mewn difrod trydydd-partïon ers i ni ddod yn aelod o LSBUD. Caiff y wobr hon ei chyflwyno fel rhan o Wythnos Genedlaethol Tyllu Diogel, ac mae'n cydnabod y gwaith a wneir gan ein tîm Diogelu Gweithfeydd yn ymgysylltu â chwsmeriaid ar safleoedd cyn i waith ddechrau ac yn darparu canllawiau diogelwch er mwyn lleihau'r risg o ddifrod i'n rhwydwaith.

# Mynnu diogelwch bob amser

## Codi llais i sôn am y lladdwr tawel

Rydym yn gwybod pa mor bwysig ydy diogelwch i'n defnyddwyr a'n rhanddeiliaid ac rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr y gall pawb wresogi eu cartrefi a'u busnesau yn y modd mwyaf diogel posib. Rydym wedi bod yn gweithio ar nifer o ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr ynglŷn â pheryglon **carbon monocsid (CO)**, sy'n cael ei alw'n "lladdwr tawel".




Yn ystod wythnos Diogelwch CO, lansiwyd ein hymgyrch flynyddol gyda chefnogaeth ein Llysgenhadon Diogelwch Nwy i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â symptomau a pheryglon gwenwyn CO – y nwy di-arogl, anweledig. Roedd yr ymgyrch hon yn cynnwys gêm ryngweithiol "Craciwch y COd" oedd yn rhoi cyfle i'r chwaraewyr ennill iPad wrth gyfleu negeseuon diogelwch allweddol. Roedd hefyd yn atgoffa rhanddeiliaid o'r rhif Argyfwng Nwy y dylid ei ffonio **(0800 111 999)** gyda phryderon ynglŷn â CO.

Yn ogystal â hynny, daethom ni a'r Rhwydweithiau Dosbarthu Nwy eraill ynghyd mewn ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â pheryglon CO, gan ganolbwyntio ar risgiau tymhorol. Mae'r ymgyrch aml-sianel yn darparu negeseuon ymwybyddiaeth ynglŷn â pheryglon gwenwyn CO ac yn darparu gwybodaeth diogelu hollbwysig fel y gall pobl ddiogelu eu hunain rhag y "lladdwr tawel".

Mae ein rhaglen Llysgenhadon Diogelwch Nwy wedi cyflwyno cyfres o weithdai diogelwch nwy ar draws ein rhwydwaith i gymunedau lleol gan gynnwys myfyrwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cynnal stondin arddangos yn adeilad Senedd Cymru ym Mae Caerdydd, gan groesawu nifer dda o Aelodau'r Senedd.

Darparodd ein partneriaeth ag Elusen Diogelwch Nwy weithdai CO i sefydliadau diogelu megis Care & Repair a MIND. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar arwyddion a symptomau gwenwyn CO a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael, gyda'r nod o helpu'r grwpiau hyn i ddiogelu eu hunain a'u cleientiaid. Yn 2024, addysgwyd 64 o weithwyr allweddol gennym yn y gweithdai hyn ac rydym yn bwriadu cynnal rhagor yn 2025.

**Dewch o hyd i ragor o wybodaeth am ein hymgyrch CO yma.**




**FFEIL FFEITHIAU**

Cyrhaeddodd ein Llysgenhadon Diogelwch Nwy fwy na 12,000 o bobl ifanc yn 2024 dros 372 o sesiynau, gan ddarparu 463 o oriau o negeseuon.

# Gwneud popeth y gallwn i ddarparu ynni cynaliadwy

**Mae cynaliadwyedd yn bwysig i'n rhanddeiliaid ac mae wrth galon popeth a wnawn. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r trawsnewid tuag at system ynni gynaliadwy a gwydn, gan leihau ein heffaith amgylcheddol a hyrwyddo ffynonellau ynni carbon-isel neu ddi-garbon.**


## Piblinell tuag at sero net

Elfen ganolog o'n cynlluniau cynaliadwyedd ydy sicrhau bod y seilwaith yn ei le i allu cludo nwy gwyrddach i gartrefi a busnesau. Dyna pam rydym wedi datblygu prosiect arloesol HyLine Cymru i gynorthwyo gyda datgarboneiddio diwydiant, gan gydweithio â phartneriaid yng Nghlwstwr Diwydiannol De Cymru.

Mae HyLine Cymru yn gynnig i adeiladu piblinell hydrogen newydd 130 cilometr o hyd o Sir Benfro i Bort Talbot, a fydd yn cludo ffynhonnell ynni carbon-isel a gynhyrchwyd yn lleol i gwsmeriaid diwydiannol, gan helpu hefyd i ddatgloi'r potensial ar gyfer ynni gwynt arnofiol ar y môr drwy ddarparu llwybr i'r farchnad ar gyfer cynhyrchwyr ynni glân.

Drwy gyflwyno hydrogen carbon-isel yn lle nwy naturiol (methan), gallai'r prosiect alluogi gostyngiad o hyd at 3.2 miliwn tunnell o CO2e y flwyddyn gan ddiwydiant a diogelu a chreu cannoedd o swyddi yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.

Er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cynnwys yn y prosiect, cynhaliom sesiwn galw-i-mewn yn y Senedd ym Mae Caerdydd yn gynnar yn 2024. Gydag Aelodau'r Senedd yn mynychu, gan gynnwys rhai o'u Pwyllgor Newid Hinsawdd, amlinellodd y digwyddiad fanteision y prosiect a sut y gallai ein helpu i gyflawni ein targedau sero net.



## Arloesi â hydrogen

Dywedodd ein rhanddeiliaid wrthym pa mor bwysig ydy cynaliadwyedd iddyn nhw ac rydym yn credu mai'r ffordd orau o ddod yn fwy cynaliadwy ydy drwy weithredu datrysiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dyna pam rydym wedi lansio cyfres o fentrau arloesol sy'n anelu at hwyluso cynhyrchu a dosbarthu mwy o nwy gwyrdd, dangos dichonoldeb hydrogen a gwneud ein gweithrediadau yn fwy cynaliadwy.

Mewn partneriaeth â'r datblygwr ynni gwyrdd a cherbydau modur First Hydrogen, buom yn treialu fan sy'n cael ei phweru gan hydrogen er mwyn asesu ei pherfformiad yn ôl nifer o fetrigau, gan gynnwys amrediad, ail-lenwi â thanwydd a thynnu ôl-gerbydau. Buom yn gweithio hefyd gyda'r cynhyrchwyr hydrogen gwyrdd Protium Green Solutions a'r cwmni ail-lenwi tanwydd hydrogen Hyppo Hydrogen Solutions i ddatblygu'r ecosystem i gefnogi ein gweithrediadau.

Rydym yn sylweddoli, er mwyn i ni allu defnyddio hydrogen, bod angen ffynonellau newydd ar gyfer cynhyrchu glân a storio, a dyna pam rydym wedi lansio dau brosiect i fynd i'r afael â'r heriau rhyng-gysylltiedig hynny.

Rydym yn gweithio ar brosiect i gynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau dŵr amhur megis dŵr glaw, gorlif stormydd a dŵr gwastraff gan ddefnyddio trydan adnewyddadwy. Hyd yn hyn, mae'r canlyniadau wedi creu tipyn o argraff a gallai'r dechnoleg rydym yn ei defnyddio ddileu'r rhwystrau ymarferol ac ariannol sy'n atal cynhyrchu hydrogen gwyrdd.

Er mwyn ymchwilio i weld sut y gall opsiynau storio hydrogen integreiddio â system ynni'r dyfodol, rydym yn cydweithio â Northern Gas Networks a Progressive Energy ar brosiect sy'n ymchwilio i'r potensial ar gyfer storio mewn dyfrhaenau. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ar storio hydrogen yn canolbwyntio ar feysydd nwy sydd wedi'u dihysbyddu, ond gallai dyfrhaenau fod yn opsiwn rhatach a fydd yn cynnig perfformiad gweithredol cyfatebol.



**Rydym wedi ymrwymo i gynllunio dyfodol sydd yn gynhwysol, arloesol a chynaliadwy ac rydym yn gweithio tuag at greu gweithlu amrywiol.**

## Mentrau cynhwysol

Rydym wedi cymryd camau sylweddol ymlaen gyda'n hymdrechion dros Degwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant (ED&I) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hwn yn faes pwysig o safbwynt ein sylw mewnol, ac mae'n ein helpu hefyd i gefnogi'r gymuned ehangach.

Mae'r Rhwydwaith Cynhwysiant Menywod (WIN) yn un o'n grwpiau sydd yn tynnu gweithwyr cyflogedig sy'n rhannu'r un hunaniaeth a/neu ddiddordeb ynghyd.

Ynghyd â'n Grŵp Cenedlaethau'r Dyfodol a'r grŵp Hygyrchedd, mae WIN wedi'i sefydlu ac yn cael ei gynnal gan gydweithwyr, er mwyn helpu i greu gweithle cynhwysol, meithrin ymdeimlad o gymuned a hybu ymgysylltiad gweithwyr.

Ymhlith ein mentrau ED&I mewnol, roedd lansio Thrive, newyddlen sy'n canolbwyntio sylw ar lesiant a gaiff ei dosbarthu i bob cydweithiwr, a phenodi Ymgynghorydd Llesiant newydd.

Mae'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud wedi'i gydnabod gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, a ddyfarnodd wobr Menter Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Orau i ni yng Ngwobrau blynyddol CIPD Cymru. Roedd y beirniaid wedi canmol ein hymrwymiad i greu gweithle amrywiol a chynhwysol sydd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch seicolegol, dilysrwydd a thryloywder.





## Blaenoriaethu cymorth i ddefnyddwyr

Ym mis Gorffennaf 2024, lansiwyd tîm newydd gennym yn benodol ar gyfer darparu cymorth wedi'i deilwra i gwsmeriaid blaenoriaeth, gan gynnwys cyfathrebu drwy ddulliau o'u dewis, trefnu gwasanaethau mesuryddion, cynnig cefnogaeth gyda diogelwch nwy ac atgyfeirio pobl i gael cymorth ychwanegol.

Mae'r tîm yn helpu hefyd i gael gafael ar gyfarpar yn lle rhai sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes, yn darparu dewisiadau addas ar gyfer gwresogi a choginio yn ystod cyfnodau hir o dorri ar y gwasanaeth ac yn cydlynu gwaith dilynol gyda thrydydd partïon megis cyflenwyr nwy a landlordiaid.

**FFEIL FFEITHIAU**

- **11,337** o gwsmeriaid wedi'u cyfeirio ar gyfer ymuno â'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth
- **46** o atgyfeiriadau diogelu
- **45** o Falfiau Popty sy'n Cloi wedi'u gosod er mwyn cadw cwsmeriaid yn ddiogel yn eu cartrefi

# Arwain gwasanaeth rhagorol

**Rydym wedi ymrwymo i ddod i ddeall beth sy'n bwysig i'n cwsmeriaid er mwyn i ni allu bodloni a mynd y tu hwnt i'w disgwyliadau. Mae diwallu anghenion defnyddwyr sydd mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed yn faes sy'n cael sylw penodol.**



## Bodloni disgwyliadau

Er mwyn bodloni disgwyliadau defnyddwyr, rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cydweithwyr, cwsmeriaid, a phartneriaid cymunedol. Drwy fabwysiadau "Model Profiad Gwasanaeth" y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid (ICS), rydym wedi ymgorffori'r diwylliant iawn ac rydym yn arwain ac yn trawsnewid ein profiad i ddefnyddwyr, ac yn sicrhau ei fod yn barod am y dyfodol. Mae'r fframwaith hwn yn helpu i ddatblygu diwylliant gwasanaeth sydd â'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer ymgysylltu'n well a gweledigaeth strategol a arweinir o'r brig.

Mae ein hymdrechion wedi'u gwobrwyo â sgoriau bodlonrwydd cwsmeriaid uwch na 9/10 mewn arolygon ar gyfer gwaith wedi'i gynllunio, cysylltiadau nwy, ac ymateb i argyfyngau nwy, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i wasanaeth rhagorol.

## Gofalu am y rhai mwyaf anghenus

Mewn ymgais i leihau effaith a difrifoldeb tlodi tanwydd, rydym wedi ymrwymo i ddwy flynedd o gyllid i brosiect "Hynach nid Oerach" elusen Care & Repair Cymru.

Wedi'u cyllido drwy ein Lwfans Bregusrwydd a Charbon Monocsid (VCMA), bydd Swyddogion Ynni'r Cartref yr elusen yn helpu defnyddwyr sydd dros 60 oed i gadw eu cartrefi'n gynnes ac yn effeithlon o ran ynni ac mae disgwyl y bydd 8,500 o gartrefi yn cael cymorth dros ddwy flynedd y prosiect.

Yn ogystal â helpu cwsmeriaid i gael yr incwm mwyaf sydd ar gael iddynt drwy wirio hawliau i fudd-daliadau ac ehangu mynediad at grantiau effeithlonrwydd ynni, bydd yr elusen yn darparu cyngor ar ynni ac yn cyfeirio pobl at gymorth i reoli dyledion tanwydd. Bydd Swyddogion Ynni'r Cartref yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â risgiau carbon monocsid a sut i gofrestru ar gyfer y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth.

Drwy fod yng nghynhadledd flynyddol Care & Repair, cawsom gyfle gwych i glywed yn uniongyrchol gan weithwyr allweddol a rhanddeiliaid eraill am rai o'r heriau a wynebir gan bobl mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed a'r ffordd orau o'u cefnogi, a bydd y wybodaeth honno'n ein helpu i dargedu cymorth i rai sy'n agored i niwed yn y dyfodol.



### Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth (PSR)

Oeddech chi'n gwybod bod gan bob cyflenwr nwy, dŵr a thrydan a phob un o'r darparwyr rhwydweithiau dosbarthu rywbeth a elwir yn Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth (PSR)? Mae hon yn ein helpu ni a chyfleustodau eraill i ddarparu'r gefnogaeth sydd wir yn gofalu am y rhai y mae'r angen mwyaf am y gefnogaeth honno arnynt.

**Rydym yn gwybod ei bod yn bwysig i'n defnyddwyr ein bod yn darparu gwasanaethau cost-effeithiol ac yn cynnal safonau ansawdd uchel ar yr un pryd ac rydym yn ymdrechu i wneud hynny drwy fynnu effeithlonrwydd, er mwyn gwneud yn siŵr bod defnyddwyr yn cael y gwerth gorau posib.**

## Cymorth i rai sy'n agored i niwed yn ein cymunedau

Drwy ein Lwfans Bregusrwydd a Charbon Monocsid (VCMA), rydym wedi ariannu nifer o brosiectau amrywiol i gefnogi pobl sy'n profi tlodi tanwydd.

### Cymuned Ynni Plymouth (PEC)

Buom yn gweithio gyda PEC i gefnogi mwy nag 20,000 o bobl. Mae PEC yn darparu cyngor ar effeithlonrwydd ynni ac yn helpu pobl i gael yr incwm mwyaf sydd ar gael iddynt. Mae PEC hefyd yn helpu pobl i ymgysylltu'n well â'u darparwr ynni a darparu gwybodaeth i'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth (PSR).

Mae PEC yn cynnig gwasanaeth galw-i-mewn ac mae ei ymgynghorwyr yn ymweld â phobl yn eu cartrefi hefyd i ddarparu cymorth wedi'i deilwra.

### Datrysiadau ynni YES

Rydym wedi cydweithio â YES, sydd yn cynnig cyngor ar ynni yn rhad ac am ddim i gwsmeriaid yn ne-orllewin Lloegr, wedi'i ariannu'n rhannol drwy ein VCMA, gan helpu cwsmeriaid i arbed arian ar filiau ynni. Mae'r sefydliad yn bwriadu helpu dros 4,200 o gwsmeriaid i arbed cyfartaledd disgwyliedig o £502 fesul aelwyd. Mae'n darparu cynghorion ynglŷn ag arbed ynni a gwybodaeth am gyllid a chefnogaeth sydd ar gael yn lleol ar gyfer eu biliau ynni.

### Gweithredu dros Gaerau a Threlai (ACE)

Trwy ein VCMA unwaith eto, rydym yn ariannu prosiect gydag ACE sydd yn anelu at gefnogi 1,620 o bobl sydd mewn tlodi tanwydd neu dan risg o fod. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi aelodau cymwys o'r gymuned drwy sesiynau estyn allan mewn meddygfeydd, drwy eu cofrestru ar gyfer y PSR a chael mynediad at raglenni fel y Cynllun Cartrefi Cynnes i'w helpu i gael yr incwm mwyaf sydd ar gael iddynt.



## Ar flaen y gad o ran ymgysylltu â chwsmeriaid

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr ydy ein prif ddull o sicrhau bod ein penderfyniadau yn berthnasol i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Drwy roi ein cymunedau wrth galon yr hyn a wnawn ac ymgysylltu drwy ddulliau wedi'u teilwra, rydym yn canfod beth yw dyheadau ac anghenion ein rhanddeiliaid ac yn ychwanegu'r gwerth mwyaf posib.

Rydym ymhlith y cyntaf i fabwysiadu offeryn dadansoddi ymgysylltiad Deallusrwydd Artiffisial (AI) a grëwyd gan Sirio Strategies. Mae'r offeryn AI yn galluogi dadansoddi cyflym a chywir, ffurfio a thriongli canfyddiadau, ac mae wedi cyflymu'r broses o gael dadansoddiad cywir a manwl o ganfyddiadau rhanddeiliaid. Mae'n rhoi'r gallu i ni fynd ar drywydd ateb i gwestiwn gyda chwestiynau pellach, er mwyn datblygu dealltwriaeth drylwyr o ganfyddiadau defnyddwyr a rhanddeiliaid.

Mae'r offeryn yn gweithio drwy ddadansoddi data canfyddiadau ein hymgysylltu, adroddiadau allanol cadarn ac adborth credadwy ymgysylltu trydydd-partïon yn gyflym. Rydym yn datblygu dealltwriaeth werthfawr i'n helpu i lywio ein penderfyniadau busnes heb orfod pori'n fanwl drwy adroddiadau ymchwil i ganfod gwybodaeth, ac mae'n cynnig ffordd arall o weithio sy'n rhoi gwir werth am arian i ni.




### Yr offeryn AI ar waith

Yn 2024, cafodd dros 200 o adroddiadau amrywiol oedd yn cynnwys canfyddiadau perthnasol eu llwytho i'n hofferyn AI i gael eu dadansoddi, gan gefnogi ein gwaith cynllunio busnes.

# Cysylltwch â ni

**Mae eich adborth yn werthfawr i ni!**
**Mae croeso i chi anfon e-bost atom yn – engagement@wwutilities.co.uk**

Cewch ragor o wybodaeth am ein cynlluniau ar gyfer 2026 i 2031 yma.

Mae ein Cynllun Busnes yn rhoi manylion pob un o'n hymrwymiadau, ein meysydd busnes, a sut mae ein penderfyniadau wedi cael eu dylanwadu gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid.



Mynnwch y wybodaeth ddiweddaraf ar-lein drwy ddilyn ein sianeli cyfryngau cymdeithasol

@wwutilities   wales-&-west-utilities   wwutilities   @wwutilities

WALES&WEST UTILITIES